Adnabod Awdur

Llŷr Titus

Llun: Catrin Arwel

Dwi'n hoff iawn o wylio cyfresi teledu ffuglen wyddonol fel *Star Trek* a *Stargate* ac yn y blaen, a dwi wedi darllen nifer fawr o lyfrau ffuglen wyddonol a chomics hefyd. Ac mae'r syniad o fynd i chwilota am ryfeddodau ar blanedau diarth yn un sydd wedi cydio ynof erioed. Fe ges i 'ngeni'n rhy hwyr i fod yn anturiaethwr ar y ddaear ac yn rhy fuan i fod yn un yn y gofod, felly mae'n rhaid bodloni ar y dychymyg.

Pan ges i'r cynnig i ysgrifennu nofel i'r grŵp oedran arbennig hwn, dyma feddwl beth yr hoffwn i fod wedi'i ddarllen pan oeddwn i'r un oed. Mae'n rhaid cyfaddef i mi ddarllen llawer mwy o Saesneg na Chymraeg pan oeddwn i'n iau am fod nofelau Saesneg yn trafod pethau a oedd yn ddifyrrach i mi. Does yna ddim digon o'r math yma o beth yn Gymraeg ac felly dyma feddwl datrys mymryn ar hynny. Roedd y 'Llŷr bach' hwnnw'n hoff o antur, o rocedi a dirgelwch a phethau gwahanol yn fwy na dim, ac felly dyma fynd ati i geisio rhoi rhywbeth felly at ei gilydd a gwneud hynny mewn ffordd, gobeithio, nad oedd ddim yn nawddoglyd. Roedd o hefyd yn hoff o gymeriadau pendant a phenderfynol, waeth beth oedd eu rhyw nhw, a gan 'mod i'n teimlo fod y pwyslais ar gael hogiau i ddarllen yn gadael y genod heb ddigon a bod llyfrau eraill fel *Hunger Games* a chyfresi teledu fel *The Legend of Korra* yn dda iawn, dyma fentro ceisio gwneud merch yn brif gymeriad. Fedra i ond gobeithio i mi lwyddo i greu cymeriad cyflawn.

Daeth y dechrau'n sydyn iawn – y drwg wedyn oedd ceisio cael rhywbeth i yrru'r plot ymlaen. Roedd yna ddyn drwg yn rhan o'r nofel wreiddiol ond doedd hwnnw ddim yn tycio, ac felly fe wnes i benderfynu defnyddio dirgelwch yr Athro Hans yn unig. Roedd hynny hefyd yn fodd i wneud i bethau ymddangos yn ddieithrach rywsut, gan fod diffyg dealltwriaeth y cymeriadau yn troi'r amgylchiadau ac yna'r blaned a phopeth arni yn fwy rhyfedd.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ONLINE

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Nofel ffuglen wyddonol yw *Gwalia* sydd yn trafod anturiaethau Elan a gweddill criw llong ofod y Gwalia wrth iddyn nhw geisio datrys dirgelwch sy'n cyrraedd y llong ar ffurf neges o'r gorffennol. Daw dau fachgen, Milo a Rob, yn rhan o'r criw wrth iddyn nhw deithio, ac er nad ydi Elan yn or-hoff o'r ddau i ddechrau, mae glanio ar blaned ryfedd yn gorfodi'r tri i gydweithio. Mae'n rhaid iddyn nhw gadw eu pwyll wrth i bethau fynd o chwith weithiau, a daw'r tri ar draws rhyfeddodau a chymeriadau arallfydol wrth iddyn nhw geisio dianc a mynd yn ôl at y Gwalia a'u cartref.

***Gwalia* £4.99**
Cyhoeddwr: Gwasg Gomer

Dyddiad geni: 10 Tachwedd 1992

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Cefais fy ngeni mewn ysbyty ym Mangor (sydd bellach yn safle siop ddillad) ond fy magu am flynyddoedd cyntaf fy oes mewn pentref o'r enw Edern yn Llŷn, a symud wedyn i Fryn-mawr i hen gartre'r teulu ar ochr fy nhad. Tŷ Nain oedd o am flynyddoedd cyn mynd yn 'tŷ Nain a ni'.

Beth oedd eich hoff bwnc yn yr ysgol a pham? Roeddwn i'n hoff iawn o Gymraeg a Ffrangeg a gwyddoniaeth hefyd, Bioleg a Ffiseg yn benodol. Yn yr ysgol gynradd roeddwn i'n hoffi gwersi am fywyd gwyllt a hanes, a byddwn yn bachu ar unrhyw gyfle i actio a sgrifennu. Doeddwn i ddim yn un am chwaraeon – doedd cicio pêl ddim yn apelio rhyw lawer ata i, fwy nag ydi o rŵan mewn difri.

Oeddech chi am fod yn awdur wedi i chi adael yr ysgol? Doedd gen i ddim clem beth roeddwn i am fod. Tydw i byth yn gwybod go iawn, ond roeddwn i wedi bod eisiau sgrifennu ers fy mod i'n gymharol ifanc ac felly fe wnes i ddal ati. Cael mwynhad o sgrifennu oedd y peth pwysicaf a dyna ydi o o hyd.

Pa lyfrau oeddech chi'n hoffi eu darllen pan oeddech yn blentyn? Llyfrau Terry Pratchett, Harry Potter a rhyw lyfr difyr iawn o'r enw *Taid a'r Sosej*. Roeddwn i'n ddarllenwr mawr.

A ydych chi'n hoff o ysgrifennu am un peth yn fwy na'r llall? Ar hyn o bryd dwi'n hoff o sgrifennu ffuglen wyddonol a ffantasi am fod hynny'n llawer mwy o hwyl na sgrifennu am fywyd pob dydd, a dwi'n gweld prinder y math yna o beth ac eisiau helpu i lenwi'r bwlch. Dwi'n hoffi sgrifennu dramâu hefyd.

Beth yw eich hobi? Archeoleg (fe fydda i'n gweithio ar ambell gloddfa bob hyn a hyn ac mae o'n dipyn o hwyl), darllen, chwarae gemau fideo, cerdded a gwylio'r teledu, ac os medra i wneud y rhan fwyaf o'r rheiny efo ffrindiau, yna gorau oll.

Beth yw eich hoff liw? Coch oedd pob dim erstalwm gen i ond dwi'n lecio piws tywyll ar hyn o bryd; bwtsias y gog (clychau'r gog) ydi'r drwg am hynny, dwi'n amau.

Beth sydd bwysicaf yn eich bywyd? Aer. Hynny ac unigolion penodol, ond 'dawn ni ddim i fanylu.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd ysgrifennu? Ydw weithiau, ac weithiau'n ei chael hi'n anodd ofnadwy. Mae'n dibynnu sut yr ydw i'n teimlo ac a oes gen i bethau eraill sy'n rhaid eu gwneud.

Beth yw eich cas fwyd a pham? Dwi'n fytwr mawr, felly does gen i ddim cas fwyd – dwi'n fodlon blasu popeth o leiaf unwaith. Er, roeddwn i'n arfer casáu tiwna ar ôl profiad anffodus flynyddoedd yn ôl, ond bellach mi fydda i'n lecio hwnnw hefyd. Dwi'n fwy o ddyn pethau sawrus na melys; mae gen i wy Pasg heb ei orffen o hyd ond fiw i neb adael paced creision yn agos ata i!

O ble'r ydych yn cael eich syniadau am stori dda? Does gen i ddim clem, maen nhw'n dod ac yn setlo yn fy mhen i bob hyn a hyn. Mae darllen, edrych ar ffilmiau ac yn y blaen yn help weithiau. Mi fydda i'n hel syniadau a'u cadw nhw.

Beth yw eich hoff anifail? Mae hynny'n dibynnu. Mae'n well gen i gathod na chŵn ac mae gen i ddwy gath – Pws a Llwyd. Dwi hefyd yn hoff o orangwtangiaid, ac mae fy nhad a minnau'n cadw gwenyn, felly dwi'n hoff ohonynt hwythau hefyd. Un anifail arall difyr iawn y des i ar ei draws o sbel yn ôl ydi'r salamander – mae hwnnw'n gallu tyfu darnau o'i gorff yn ôl ac mae hynny'n cŵl, dydi?

Oes gennych chi gyngor i rywun sydd am ysgrifennu? Gwnewch o, sgrifennwch, daliwch ati, a does yna ddim cywilydd o gwbl mewn sgrifennu rhywbeth sâl wrth ddechrau arni (nac ychwaith pan mae rhywun wedi arfer, dim ond fod mwy o bobol am ei weld o). Cofiwch wrando ar bobol a chofiwch wybod pryd i beidio gwrando hefyd.

Beth sydd ar y gweill gennych ar hyn o bryd? Gormod. Dwi'n gwneud doethuriaeth (mae 'na waith darllen mawr efo hwnnw), yn darlithio rhyw fymryn ac yn sgrifennu gwahanol bethau (*top secret*, mae arna i ofn).

Sut deimlad yw bod yn awdur? Dim ond un llyfr dwi wedi'i gyhoeddi, cofiwch – wn i ddim a fyddwn i'n galw fy hun yn awdur eto. Dwi'n teimlo'n debyg iawn i fel roeddwn i cynt, ond fe ges i lot o hwyl wrth wneud *Gwalia* a dyna oedd y peth pwysicaf.